**CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN**
**COFNODION CYFARFOD 2 MAWRTH 2026**
19.00 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

## 1. Presennol

Glyn Griffiths, Siân Cwper, Beti Williams, June Jones

**Clerc:** Huw Rowlands

**Cadeirio:** Nia Povey

## 2. Ymddiheuriadau

Cenwyn ap Thomas

## 3. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Dim

## 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 12 Ionawr 2026.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 12 Ionawr 2026, ond bod angen tynnu allan y cyfeiriad o siarad efo Dylan Edwards o ran cytundeb torri gwair mynwent Tan Lan ar gyfer 2026, ym mharagraff 5.5.

Angen hefyd dileu'r cyfeiriad fod taliad o £1,800 wedi ei wneud i Lechen Lan am y gysgodfan fws ym mharagraff 6.5

**Cynnig:** Siân Cwper

**Eilio:** Glyn Griffiths

## 5. Materion yn codi o'r Cofnodion

### 5.1 Ynni Cymunedol

Mae cyfarfod wedi ei drefnu efo grŵp o gynrychiolwyr a thrigolion lleol er mwyn cael trafodaeth gychwynnol nos Fawrth 20 Mawrth.

### 5.2 Y Ganolfan

Holwyd Cyngor Gwynedd a fyddai'n bosibl ildio'r les, ac yn hytrach ond cael les ar delerau gwahanol i'r un bresennol na fyddai'n gofyn am gynrychiolwyr cymunedol. Mae hyn yn bosibl, ond bydd angen Trafodaethau pellach efo Cyngor Gwynedd ar y mater. .

Cytunwyd i drafod ymhellach wedi penderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd ar gau Ysgol Garreg, Llanfrothen ai peidio.

Os bydd penderfyniad i ildio les Y Ganolfan, yna byddai'n syniad ystyried cyfarfod cyhoeddus er mwyn cael barn trigolion lleol ddechrau mis Gorffennaf.

Bydd ystafell llawr isaf Y Ganolfan yn cael ei defnyddio ar gyfer etholiad Senedd Cymru ar 7 Mai.

**5.3 Goryrru Garreg, Llanfrothen a Gosod Cyflymder 20 m.y.a.**

Mae'r Clerc yn disgwyl prisiau gan amrywiol ddarparwyr.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau y byddai grant Gwynedd Ni yn debygol o dalu am gost un arwydd.

Cytunwyd y dylid gosod arwydd yn y lleoliad a drafodwyd efo Cyngor Gwynedd, sef dros y ffordd i Siop a Chaffi Llanfrothen, ac os bydd hwnnw'n llwyddiannus gosod arwydd tebyg ar y ffordd i mewn o Tan Lan i Garreg, a hwnnw wedi ei ariannu gan grant Gwynedd Ni.

**5.4 Mynwent Tan Lan**

Cytunodd Y Cynghorydd Nia Povey i ofyn i Dylan Edwards godi'r garreg fedd sydd ar ei hochr, a'i hail osod efo plinth dur di-staen.

**5.5 13 Garreg Frech**

Torrodd Scottish Power y goeden ywen yng ngardd 13 Garreg Frech, gan y gallai effeithio ar geblau trydan gerllaw.

**5.6 Cwrs Diffribliwyr**

Bwriedir cynnal cwrs hyfforddi diffib yn Siop a Chaffi Llanfrothen nos Fawrth 31 Mawrth

**5.7 Afon Wern**

Mae'r Cynghorydd Nia Povey wedi cysylltu efo Cyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru ar y mater.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu unwaith eto efo Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn dweud fod angen iddynt lanhau'r afon, gan fod peidio gwneud hynny yn golygu fod ffos y tir gerllaw yn llenwi a gorlifo. Mae'r tirfeddiannwr yn fodlon glanhau'r ffos os bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn glanhau'r afon.

**6. Materion Ariannol**

**5.1** Cyflog Clerc Ionawr 2026 £559.04

**5.2** Cyflog Clerc Chwefror 2026 £559.04

**5.3** Yu Energy 8 Ionawr 2026 - £21.23

Yu Energy 9 Chwefror 2026- £33.93

**5.4** Baner Siop a Chaffi Llanfrothen £179.94

**5.5** Dunn & Ellis Cyflogres 24/01/2026 - £73.50

**5.6** Derbyn cyfraniad £1,000 gan Ymddiriedolaeth Brondanw tuag at y gysgodfan fws.

**5.7** Derbyn cyfraniad o £500.00 gan Barc Cenedlaethol Eryri tuag at y gysgodfan fws.

**5.8** Derbyn taliad SumUp i'r banc 30 Rhagfyr 2025 £4.87

**5.9** Derbyn taliad SumUp i'r banc 31 Rhagfyr 2025 - £2.92

**5.10** Derbyn taliad SumUp i'r banc 2 Ionawr 2026 - £2.92

**5.11** Derbyn taliad SumUp i'r banc 5 Ionawr 2026 - £4.87

**5.12** Derbyn taliad SumUp i'r banc 12 Ionawr 2026 - £2.44

**5.13** Derbyn taliad SumUp i'r banc 19 Ionawr 2026 - £18.03

**5.14** Derbyn taliad SumUp i'r banc 26 Ionawr 2026 - £14.81

**5.15** Derbyn taliad SumUp i'r banc 9 Chwefror 2026 - £4.87

**5.16** Derbyn taliad SumUp i'r banc 16 Chwefror 2026 - £22.41

**5.17** Derbyn taliad SumUp i'r banc 18 Chwefror 2026 - £9.74

**5.18** Derbyn taliad SumUp i'r banc 20 Chwefror 2026 - £7.79

**5.19** Balans yn y prif gyfrif 24 Chwefror 2026 £3,835.82

**5.20** Balans yn y cyfrif cadw 24 Chwefror 2026 £39,257.87

Trafodwyd y gyllideb a daethpwyd i'r casgliad y byddai balans y prif gyfrif i lawr i tua £1,000 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, ond y byddai taliad cyntaf y praesept ar gyfer 2026/27 yn dod i mewn erbyn diwedd Ebrill 2026.

Gyda'r balans yn y cyfrif cadw n parhau oddeutu £39,000 erbyn dechrau blwyddyn ariannol 2026/27 y casgliad oedd bod y sefyllfa ariannol ar gyfer 2026/27 yn gymharol iach.

## 6. Gohebiaeth

- Cyfle Grant Cronfa Cynghorau Tref a Chymuned Cyngor Gwynedd 2026; arian cyfalaf ar gyfer gwella gofodau cymunedol, mannau cyhoeddus

Mae’r grant yma yn addas ar gyfer prynu a gosod arwydd fflachio cyflymder.  Dyddiad cau'r grant yw Mehefin 202.6

**7. Cynllunio**

Dim

**9. Materion Eraill**

**9.1 Rhoddion Ariannol**

Cytunwyd i roi rhoddion ariannol fel a ganlyn

Yr Wylan - £100

Clwb Ffermwyr Ifanc Eryri - £100

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Siân Cwper

**9.2 Cymeradwyo Rhestr Asedau**

**Cynnig:** Nia Povey

**Eilio:** Glyn Griffiths

**9.3 Cymeradwyo Cofrestr Risg**

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio: Beti Williams**

**9.4 Cymeradwyo Cynllun Hyfforddiant**

**Cynnig:** Nia Povey

**Eilio:** Siân Cwper

**9.5 Cymeradwyo Rheolau Ariannol**

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Beti Williams

**9.6 Cymeradwyo Rheolau Sefydlog**

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Beti Williams

**9.7 Ffurflen Derbyn/Gwrthod Tal 2026/27**

Dosbarthwyd ffurflenni Derbyn/Gwrthod Tal i aelodau ar gyfer y cyfnod 2026/27.

**9.8 Carafan yn y gilfan ger Tan Lan**

Mae carafán wedi ei gadael yn y gilfan ger Tan Lan ers mis Hydref 2025. Bu’r Cynghorydd June Jones mewn cysylltiad efo Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd, ac mae camau ar y gweill i’w symud. Gofynnwyd i’r Clerc holi am ddiweddariad.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 4 Mai 2026 am 7 yr hwyr**